

## Y Pwyllgor Busnes

---

Lleoliad:  
**Ystafell Bwyllgora 4 - Ty Hywel**

---

Dyddiad:  
**Dydd Mawrth, 1 Tachwedd 2011**

---

Amser:  
**08:45**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Aled Elwyn Jones**  
Clerc y Pwyllgor  
029 2089 8009

---

### Agenda

---

#### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

#### 2. Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn dilyn y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad

2 (i) Dulliau i Aelodau unigol gynnig Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor i'w gwneud o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

BC(4)13-11 Papur 1 (Tudalennau 1 - 4)

BC(4)13-11 Papur 1 Atodiad A (Saesneg yn unig) (Tudalennau 5 - 11)

BC(4)13-11 Papur 1 Atodiad B (Tudalennau 12 - 13)

# Eitem 2(i)

**At:** Y Pwyllgor Busnes

**Oddi wrth:** Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

**Dyddiad:** 1 Tachwedd 2011

## **Prosesau i alluogi Aelodau unigol i gynnig Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor i'w gwneud o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**

### **Diben**

1. Ar 21 Mehefin 2011, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog yn sgil y bleidlais gadarnhaol yn y refferendwm ar bwerau deddfu'r Cynulliad. Cafodd cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, gan gynnwys rhai adrannau o Reol Sefydlog 25, ei gytuno gan y Cynulliad ar 13 Gorffennaf.
2. Gofynnodd yr Aelodau am bapur ychwanegol yn amlinellu'r opsiynau i Aelodau unigol allu cynnig Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf"). Cafodd y papur hwnnw ei ystyried yn y cyfarfod ar 28 Mehefin 2011, a chytunwyd yn fras ar y camau nesaf i'w cymryd. Mae'r papur hwn yn cynnwys manylion y newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 25.26 - 25.34 a fyddai'n sefydlu proses o'r fath.

### **Cefndir**

3. Yn ystod y Trydydd Cynulliad, roedd llwyddiant cynnig arfaethedig gan Aelod yn ddibynol i raddau helaeth ar drafodaethau ag adrannau perthnasol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn ystod y Trydydd Cynulliad, cafodd dau orchymyn arfaethedig Aelod Gydsyniad Brenhinol: Gorchymyn Jonathan Morgan AC ynghylch darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl a Gorchymyn Ann Jones ynghylch diogelwch tân domestig.
4. Wrth ystyried yr opsiynau sy'n agored i Aelodau unigol i gynnig Gorchmynion adran 109, penderfynodd y Pwyllgor Busnes y byddai parhau â'r system falot yn amhriodol oherwydd bod llai o ddisgwyliad y bydd atodlen 7 yn cael ei diwygio o'i chymharu â'r trefniadau o dan Ran 3 ar gyfer diwygio atodlen 5. Hefyd, os a phryd bydd angen diwygio atodlen 7, bydd gwneud hynny dim ond yn bosibl ar sail consensws rhwng y deddfwrfeydd a llywodraethau perthnasol. Roedd paratoi cynigion ar gyfer Gorchmynion adran 109 drwy falot a gynhelir gan y Llywydd felly'n cael ei ystyried i fod yn amhriodol ar gyfer y setliad fel y'i hamlinellir yn Rhan 4.

**Cynnig**

5. Ceir y testun arfaethedig ar gyfer Rheolau Sefydlog 25.26 – 25.34 newydd yn Atodiadau A a B.
6. Mae'r newidiadau arfaethedig yn adlewyrchu penderfyniad y Pwyllgor Busnes ar 28 Mehefin 2011 y dylai proses ffurfiol fod yn ei lle i alluogi Aelod i geisio cytundeb y Cynulliad er mwyn cychwyn Gorchymyn adran 109 yn absenoldeb proses balot.
7. Mae'r Rheolau Sefydlog newydd, fel y'u drafftwyd, yn darparu proses sy'n cynnwys:
  - Aelod yn cyflwyno cynnig yn galw ar y Llywodraeth i gyflwyno Gorchymyn arfaethedig o dan adran 109 o'r Ddeddf. Bydd angen Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd â'r cynnig yn darparu gwybodaeth ar yr effaith y caiff y Gorchymyn arfaethedig ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; eglurhad o pam bod angen y Gorchymyn arfaethedig; a manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd ar gyfer y cynnig, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd;
  - Bod yn rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio unrhyw gynnis sydd wedi cael lefel penodol o gefnogaeth (gweler paragraffau 8 a 9 isod) at bwyllgor neu bwyllgorau i'w ystyried yn fwy manwl. Diben cyfeiriad o'r fath fyddai gofyn i'r Pwyllgor adrodd ar rinweddau cymharol y cynnig erbyn dyddiad arbennig er mwyn i'r adroddiad hwnnw gynorthwyo unrhyw ystyriaeth a phenderfyniad sy'n dilyn gan y Cynulliad mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer Gorchymyn adran 109;
  - Ar ôl i'r pwyllgor neu bwyllgorau gyflwyno adroddiad ar rinweddau'r cynnig ar gyfer Gorchymyn, neu os bydd y dyddiad cau ar gyfer gwneud hynny wedi mynd heibio, bod yn rhaid i'r Pwyllgor Busnes neilltuo amser ar gyfer trafod y cynnig.

*Meini prawf ar gyfer cyfeirio*

8. Fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 25.29 yn gosod y meini prawf bod yn rhaid i gynnis gael cefnogaeth o leiaf 10 o Aelodau sy'n perthyn i dair plaid wahanol, o leiaf, cyn i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio'r cynnig at bwyllgor er mwyn iddo ei ystyried. Gellir mynegi'r gefnogaeth honno naill ai wrth gyflwyno'r cynnig, neu drwy Aelodau'n ychwanegu eu henwau at y cynnig ar ôl iddo gael ei gyflwyno. Mae'r maen prawf bod yn rhaid i'r cynnig gael cefnogaeth o leiaf tair plaid yn debyg i'r hyn a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer ystyried cynigion Aelodau unigol ar gyfer eu trafod.

9. Bydd y Rheolwyr Busnes am ystyried a yw'r meini prawf hyn yn briodol, neu a ddylid pennu rhai newydd. Efallai bydd y Rheolwyr Busnes am ystyried defnyddio dim ond un maen prawf, neu bennu trothwyau gwahanol.

#### *Cyflwyno Bil*

10. Os bydd y Pwyllgor Busnes yn cytuno ar y newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 25.26 - 25.34, bydd angen i'r Rheolwyr Busnes ystyried a ddylai'r Aelod a oedd yn gyfrifol am gychwyn cynnig o dan Reol Sefydlog 25.27 a ddaeth yn Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar ôl hynny gael yr hawl i gyflwyno Bil sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn hwnnw.
11. Fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, byddai Rheol Sefydlog 26.86 ddiwygiedig yn caniatáu i Aelod gyflwyno Bil o'r fath o fewn naw mis o wneud y Gorchymyn. Os bydd y Rheolwyr Busnes yn penderfynu na ddylai'r hawl hon fodoli, bydd angen dileu Rheol Sefydlog 26.86.
12. Yn wahanol i Orchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig Aelod yn ystod y Trydydd Cynulliad, bydd Llywodraeth Cymru yn symud y Gorchymyn ymlaen yn yr achos hwn. Mae'n bosibl y bydd y Gorchymyn terfynol yn wahanol iawn i'r un y bwriadodd yr Aelod gwreiddiol ei greu. Mae'n bosibl y bydd pynciau wedi'u hychwanegu ato neu eu dileu wrtho, gallai ystyr 'sy'n gysylltiedig â' fod yn anodd ei ddiffinio. Ar y llaw arall, gallai cael gwared ar y ddarpariaeth gael yr effaith o anghymell Aelod unigol rhag cychwyn Gorchymyn.
13. At hynny, bydd natur Gorchymynion adran 109 yn wahanol i Orchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, a oedd wedi'u drafftio gyda golwg ar gyflwyno Mesur penodol ac a oeddent felly yn tueddu i fod yn eithaf cul neu benodol eu cwmpas, yn arbennig felly y rhai gynigwyd gan Aelodau.

#### *Newid dilynol*

14. Os bydd y Rheolwyr Busnes yn penderfynu y dylid cadw Rheol Sefydlog 26.86 fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, bydd angen diwygio Rheolau Sefydlog 24.14 - 24.17 i gynnwys Aelodau sy'n cyflwyno Bil o dan Reol Sefydlog 26.86 o fewn y diffiniad o 'Aelod sy'n gyfrifol am ddeddfwriaeth'.

#### *Cyflwyno cynnig cyffredinol*

15. Nid yw'r newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Gorchymynion adran 109 yn effeithio ar hawl cyffredinol Aelod i gyflwyno cynnig yn galw am gyflwyno Gorchymyn adran 109. Fel cynnig gan Aelod heb ddyddiad trafod, byddai'n fater i'r Pwyllgor Busnes benderfynu a all amser gael ei neilltuo i gynnig o'r fath gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn.

## Penderfyniad

16. Gwahoddir Rheolwyr Busnes i:

- (i) ystyried y newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 25.26 i 25.34 a chytuno arnynt mewn egwyddor;
- (ii) penderfynu pa feini prawf a ddylai fod yn gymwys o dan Reol Sefydlog 25.29 cyn y bydd yn rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio'r cynnig at bwyllgor (paragraffau 8 a 9);
- (iii) ystyried a ddylid cadw'r ddarpariaeth yn Rheol Sefydlog 26.86 ar gyfer cyflwyno Bil (paragraffau 10 i 13);
- (iv) a'r newidiadau dilynol yn sgil hynny (Rheolau Sefydlog 24.14 - 24.17).

STANDING ORDER 25 – <del>Legislative Competence Orders</del> <u>in Council to be made under section 109 of the Act</u>	
<p><del>Member Proposed and Draft Orders</del> <u>Proposals for an Order by a Member, other than a member of the Government</u></p>	<p><b>Amend these Standing Orders</b>                      Standing Orders 25.26 – 25.34 provided procedures for Members of the Third Assembly to propose Legislative Competence Orders under Part 3 of the Government of Wales Act 2006.</p> <p>Given that the Assembly is now able to legislate within the 20 subject areas listed in schedule 7 to the Act, it is anticipated that the need to bring forward Orders in Council to amend Schedule 7 is likely to be reduced in comparison with the level of Legislative Competence Orders brought forward during the Third Assembly to amend schedule 5.</p> <p>The new draft SOs provide a mechanism for Members other than Members of the Government to table a motion proposing that the Welsh Government should bring forward a proposed Order.</p>
<p>25.26 <del>Standing Orders 25.27 to 25.34 apply only to Member proposed and draft Orders</del></p>	<p><b>Delete this Standing Order</b></p> <p>This Standing Order is no longer necessary</p>
<p>25.27 <del>The Presiding Officer must from time to time hold a ballot to determine the name of a Member, other than a member of the government, who may seek agreement to lay a Member proposed Order under Standing Order 25.30.</del></p> <p><u>Any Member, other than a member of the government, may table a motion calling on the government to introduce a proposed Order under Section 109 of the Act.</u></p>	<p><b>Replace this Standing Order</b></p>
<p>25.28 <del>The Presiding Officer must include in the ballot the names of</del></p>	<p><b>Replace this Standing Order</b></p>

<p><del>all those Members who have applied to be included and who have applied to be included and who have provided an outline proposed Order and an Explanatory Memorandum.</del></p> <p><u>At the same time that a Member tables a motion under 25.27, he or she must also table an explanatory memorandum which must provide the following information:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><u>i) the impact the proposal for an Order would have on the Assembly’s legislative competence;</u></li> <li><u>ii) an explanation of why the Member considers the Order to be necessary;</u></li> <li><u>iii) details of any support received for the proposal, including details of any consultation carried out.</u></li> </ul>	<p>Any Member tabling a motion under SO 25.27 will need to provide an explanatory memorandum including information similar to that which needs to be provided before entering the ballot for a Member proposed Bill.</p> <p>This both prevents spurious motions being tabled, and ensures that sufficient information is made available so that other Members can come to an informed decision about whether to support the motion or not.</p>
<p><del>25.29 No Member who has previously had agreement to lay a proposed Order in that Assembly may apply to be included in the ballot.</del></p> <p><u>If a motion tabled under Standing Order 25.27 has the support of at least ten Members who together belong to at least three different political groups, the Business Committee must refer the motion and explanatory to a committee or committees for consideration.</u></p>	<p><b>Replace this Standing Order</b></p> <p>It is proposed that a motion must achieve a certain level of support, both in terms of absolute number of Members and cross-party support, before Business Committee has to refer the motion to a committee or committees for detailed consideration.</p> <p>That support could either be made clear at the time of tabling, or could result from Members adding their names to the motion after it has been tabled.</p> <p>A total of ten Members representing three different parties is suggested as a starting point for discussion.</p>

<p>25.30 <del>A Member who is successful in a ballot may, within 25 working days of the date of the ballot, table a motion that the Assembly agrees that the Member may lay a proposed Order, to give effect to the outline proposed Order to which it relates, and an Explanatory Memorandum.</del></p> <p><u>Where a motion under Standing Order 25.27 is referred to a committee or committees for consideration in accordance with Standing Order 25.29, the Business Committee must establish and publish a timetable for the committee or committees to consider and report on it.</u></p>	<p><b>Replace this Standing Order</b></p> <p>This Standing Order ensures that the proposal is reported on within a reasonable timeframe, and is given appropriate priority by the committee or committees in question.</p>
<p>25.30A <u>Time must be made available for a motion referred to a committee or committees under Standing Order 25.29 to be debated, and such a motion cannot be moved until either:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) <u>the committee or committees have reported in accordance with Standing Order 22.59; or</u></li> <li>(ii) <u>the deadline by which the committee or committees are required to report in accordance with Standing Order 25.30 has been reached.</u></li> </ul>	<p><b>Introduce New Standing Order</b></p> <p>This Standing Order ensures that the proposal for an Order can be properly considered and scrutinised by the committee(s) in question before the motion calling on the Government to lay a proposed Order is debated.</p> <p>The Committee’s report will inform Members’ consideration of the motion.</p>



<p>25.31 <del>A motion under Standing Order 25.3027 is not amendable</del></p> <p><u>No amendment to a motion under Standing Order 25.27 may be tabled if it would not be clear from a resolution of the Assembly approving the motion as amended by such an amendment how the Assembly wished to see its legislative competence altered.</u></p>	<p><b>Replace this Standing Order</b></p> <p>The new Standing Order ensures as much clarity as possible in the motion passed, while allowing the motion to be amended in light of the committee’s report.</p> <p>The new Standing Order gives the Presiding Officer discretion in the selection of amendments, and mirrors a similar provision which was in place during the Third Assembly for draft Orders.</p>
<p>25.32 <del>Time must be made available for a motion tabled under Standing Order 25.30 to be debated within 35 working days of the date of the ballot (not counting working days in a non-sitting week).</del></p>	<p><b>Delete this Standing Order</b></p> <p>Delete this Standing Order</p>
<p>25.33 <del>Unless a motion under Standing Order 25.30 is agreed to, no further proceedings are to be taken on the proposed Order.</del></p>	<p><b>Delete this Standing Order</b></p> <p>This Standing Order is no longer necessary</p>
<p>25.34 <del>If a motion under Standing Order 25.3027 is disagreed to, then no Member may table a motion under enter any ballot held under Standing Order 25.27 for a period of six months after the motion has been disagreed to if, in the opinion of the Presiding Officer, the proposed Order which he or she is intending to lay motion seeks to confer the same, or substantially the same, legislative competence as the proposed</del></p>	<p><b>Amend this Standing Order</b></p> <p>The new Standing Order provides for the continuation of the previous provision which prevented substantially the same proposal being made again within a six month period of being rejected by the Assembly.</p>

Order referred to in the motion which has been disagreed to.	

**STANDING ORDER 26 – Acts of the Assembly**

26.86 Where a Member ~~was the Member in charge of a Member proposed Order~~ tabled a motion under Standing Order 25.27 which ~~became~~ led to an Order in Council made by Her Majesty under section ~~95~~109 of the Act, that Member may introduce ~~one Member proposed Measure a Bill~~ relating to that Order within nine months of the Order coming into force ~~being made~~. This does not affect a Member’s right to enter a ballot held under Standing Order 26.87.

**Amend or Delete this Standing Order**

Members of the Third Assembly were able to propose Legislative Competence Orders under Part 3 of the Government of Wales Act 2006. This Standing Order provided that any Member who successfully steered a Legislative Competence Order to Royal Approval would automatically be able to introduce a proposed Measure which related to his or her original Legislative Competence Order.

Business Committee will need to consider whether the same provision to introduce a related Bill should apply in the case of a Member tabling a motion which initiated a section 109 Order.

Unlike Member proposed LCOs during the Third Assembly, the Order in this case will in fact be taken forward by the Welsh Government. It is possible that the final Order will be very different to the one originally intended by the individual Member. Subjects could have been added to or removed from the Order, the meaning of ‘related to’ could be difficult to define.

On the other hand, removing the provision may have the effect of being a disincentive to an individual Member initiating an Order.

Should Business Committee decide that such a provision should not be included, then this SO will need to be deleted.

STANDING ORDER 24 – Definition of Member in Charge of Legislation	
<b>Member Legislation <del>Bills</del></b>	<b>Amend Sub-heading</b>
	Replace “Legislation” with “Bills”
24.14 <del>Legislation Bills</del> , which <del>is</del> <u>are</u> neither government <del>legislation Bills</del> , committee <del>legislation Bills</del> nor Commission <del>legislation Bills</del> , <del>is</del> <u>are</u> referred to as “Member <u>Bills</u> <del>legislation</del> ”.	<b>Amend this Standing Order</b> Replace “legislation” with “Bills” Replace “is” with “are”
24.15 The Member in charge of <del>an item of a Member Bill legislation</del> is:  (i) the Member <del>who laid or introduced the legislation, or who has had agreement to introduce or lay the legislation a Bill under Standing Orders 25.30 or 26.91 (or, in the case of a draft Order, the Member who introduced the proposed Order to which the draft Order relates);</del>  (ii) another Member authorised by the Member under Standing Order 24.15(i), by means of a statement to that effect laid by that Member; or  (iii) if no such authorisation is made, any Member authorised by the Assembly.	<b>Amend this Standing Order</b>  As Members will no longer be able to introduce proposed or draft Orders, this Standing Order required amending to reflect the fact that Bills will now be the only type of Member Legislation.  Should Business Committee decide that a Member who initiated an Order should have the right to introduce a Bill under Standing Order 26.86, then this Standing Order will need to be amended further to refer to SO 26.86.
24.16 A Member may transfer <del>an item of Member legislation a Bill</del> to a member of the government authorised by the First Minister, by means of a statement to that effect laid by that Member.	<b>Amend this Standing Order</b> Replace “an item of Member legislation” with “a Bill”
24.17 When a Member transfers <del>an item of Member legislation a Bill</del> to a member of the government (in accordance with Standing	<b>Amend this Standing Order</b> Replace “an item of Member legislation” with “a Bill”

Order 24.16), that <del>item of legislation</del> <u>Bill</u> is to be regarded, from then on, as <del>an item of</del> a government <u>Bill</u> <del>legislation</del> .	Replace "item of legislation" with "Bill" Replace "an item of government legislation" with "a government Bill"
---	---

**ATODIAD B -Rheolau Sefydlog diwygiedig sy'n adlewyrchu'r newidiadau a gynigir****RHEOL SEFYDLOG 25 – Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor i'w gwneud o dan adran 109 o'r Ddeddf****Cynigion am Orchymyn gan Aelod heblaw aelod o'r llywodraeth**

25.26 Gall unrhyw Aelod, heblaw aelod o'r llywodraeth, gyflwyno cynnig sy'n galw ar y llywodraeth i gyflwyno Gorchymyn arfaethedig o dan adran 109 o'r Ddeddf.

25.27 Pan fydd Aelod yn cyflwyno cynnig o dan bwynt 25.27, rhaid iddo hefyd gyflwyno memorandwm esboniadol sy'n cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- (i) yr effaith fyddai cynnig am Orchymyn yn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;
- (ii) esboniad o pam, ym marn yr Aelod, mae'r Gorchymyn yn angenrheidiol;
- (iii) manylion ynghylch unrhyw gymorth a gafwyd i'r cynnig, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed.

25.28 Os oes o leiaf deg Aelod, sy'n aelodau o dri grŵp gwleidyddol gwahanol neu fwy, yn cefnogi'r cynnig a gyflwynwyd o dan Reol Sefydlog 25.27 rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio'r cynnig a'r memorandwm esboniadol at bwyllgor neu bwyllgorau i'w hystyried.

25.29 Pan fydd cynnig o dan Reol Sefydlog 25.27 yn cael ei gyfeirio at bwyllgor neu bwyllgorau i'w ystyried o dan Reol Sefydlog 25.29, rhaid i'r Pwyllgor Busnes bennu a chyhoeddi amserlen er mwyn i'r pwyllgor neu bwyllgorau ystyried y cynnig a chyflwyno adroddiad yn ei gylch.

25.30 Rhaid trefnu bod amser ar gael i drafod cynnig a gyfeiriwyd at bwyllgor neu bwyllgorau o dan Reol Sefydlog 25.29, ac ni chaniateir gwneud cynnig o'r fath nes y bydd naill ai:

- (i) y pwyllgor neu bwyllgorau wedi cyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 22.59; neu
- (ii) bod y dyddiad cau erbyn pryd y mae'n ofynnol i bwyllgor neu bwyllgorau gyflwyno adroddiad arno, yn unol â Rheol Sefydlog 25.30, wedi mynd heibio.

25.31 Ni chaniateir cyflwyno gwelliant i gynnig o dan Reol Sefydlog 25.27 os na fyddai'n glir, yn sgil penderfyniad gan y Cynulliad i gymeradwyo'r cynnig fel y'i diwygiwyd gan welliant o'r fath, sut fyddai'r Cynulliad am weld ei gymhwysedd deddfwriaethol yn cael ei addasu.

25.32 Os gwrthodir cynnig o dan Reol Sefydlog 25.27, ni chaiff Aelod wneud cynnig o dan Reol Sefydlog 25.27 am gyfnod o chwe mis ar ôl gwrthod y cynnig os yw'r cynnig, ym marn y Llywydd, yn ceisio rhoi yr un cymhwysedd deddfwriaethol, neu yr un cymhwysedd deddfwriaethol i raddau helaeth.

## **RHEOL SEFYDLOG 24 – Diffiniad o Aelod sy'n Gyfrifol am Ddeddfwriaeth**

### **Biliau Aelodau**

24.14 Cyfeirir at Filiau nad ydynt yn Filiau'r llywodraeth, Biliau pwyllgor nac yn Filiau'r Comisiwn, fel "Biliau Aelod".

24.15 Yr Aelod sy'n gyfrifol am Bil Aelod yw:

- (i) yr Aelod a gafodd gytundeb i gyflwyno Bil o dan Reol Sefydlog 26.91;
- (ii) Aelod arall sydd wedi'i awdurdodi gan yr Aelod o dan Reol Sefydlog 24.15(i), drwy gyfrwng datganiad i'r perwyl hwnnw a osodwyd gan yr Aelod hwnnw; neu
- (iii) os na roir awdurdodiad felly, unrhyw Aelod sydd wedi'i awdurdodi gan y Cynulliad.

24.16 Caiff Aelod drosglwyddo Bil i aelod o'r llywodraeth sydd wedi'i awdurdodi gan Brif Weinidog Cymru, drwy gyfrwng datganiad i'r perwyl hwnnw a osodwyd gan yr Aelod hwnnw.

24.17 Pan fydd Aelod yn trosglwyddo Bil i aelod o'r llywodraeth (yn unol â Rheol Sefydlog 24.16), mae'r Bil hwnnw i'w gyfrif, o hynny allan, fel Bil llywodraeth.

## **RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Cynulliad**

26.86 Mewn achos pan oedd Aelod yn cyflwyno cynnig a ddaeth yn Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wnaed gan Ei Mawrhydi o dan adran 109 o'r Ddeddf, caiff yr Aelod hwnnw gyflwyno Bil sy'n ymwneud â'r Gorchymyn hwnnw o fewn naw mis i'r dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl yr Aelod i ymuno â balot a gynhelir o dan Reol Sefydlog 26.87.